Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Dydd Mercher, 24 Mehefin 2020

10.15 - 12.20

Microsoft Teams

Yn bresennol:

Cyfarwyddwyr:	Gareth Pierce William Callaway Nia Elias Yr Athro Jerry Hunter Meri Huws Dr Hefin Jones Pedr ap Llwyd Dr Rhodri Llwyd Morgan Angharad Roberts Llinos Roberts
Sylwedyddion:	Meg Hughes, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC/HEFCW) Lleucu Myrddin, UCMC/NUS Wales Branwen Thomas, Llywodraeth Cymru
Swyddogion:	Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr Dr Dylan Phillips, Ysgrifennydd Dr Dafydd Trystan, Cofrestrydd Nia Brown, Swyddog Llywodraethiant
Yn bresennol:	Gwenllian Griffiths, Prif Swyddog Ymgysylltu a Chyfathrebu Suzanne Lewis, Rheolwr Gweithredu
Ymddiheuriadau:	Gwilym Dyfri Jones Yr Athro Hywel Thomas

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau gweithredu	Cyfnod amser
1. Croeso a chyflwyniad	1.1 Estynwyd croeso i bawb a oedd yn bresennol yn y cyfarfod.		
2. Datganiadau o ddiddordeb	2.1 Atgoffwyd yr aelodau o'r drefn lle gofynnir i aelodau nodi unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ychwanegol at y rheiny a nodwyd eisoes yn y Gofrestr Buddiannau.		
3. Adroddiad y Prif Weithredwr **(Eitem 5)** **(Atodiad 5A)**	3.1 Derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig y Prif Weithredwr ar weithgareddau diweddar. **Cynllun Argyfwng** 3.2 Derbyniwyd cynllun argyfwng, dogfen fewnol weithredol, sy'n esblygu wrth i'r Coleg ymateb i'r sefyllfa bresennol. Diolchwyd i staff y Coleg am barhau i weithio'n effeithiol adre dros dro. **Llywodraeth Cymru** 3.3 Adroddwyd bod cyfarfodydd gyda Llywodraeth Cymru'n parhau wrth ymgynghori'n llawn ar arall-gyfeirio'r gyllideb mewn ymateb i'r sefyllfa bresennol. **Ymestyn Ysgoloriaethau** 3.4 Adroddodd y Cofrestrydd bod y Coleg wedi ehangu'r cynllun ysgoloriaethau i bob myfyriwr sy'n astudio o leiaf 40 credyd trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae 185 o geisiadau wedi'u derbyn gyda'r mwyafrif o'r rheiny ym maes Addysg. **Cyfarfodydd cynllunio** 3.5 Adroddwyd mai blaenoriaeth y cyfnod nesaf yw cynllun creu adnoddau ar gyfer		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau gweithredu	Cyfnod amser
	cefnogi dysgu cyfunol. **Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA)** 3.6 Adroddwyd bod y trafodaethau ynghylch AGA wedi oedi yn ystod yr argyfwng ond bod ail-afael yn y drafodaeth erbyn hyn. Nodwyd pa mor bwysig oedd sicrhau cyflenwad digonol o athrawon ar gyfer y dyfodol. **Addysg Bellach a Phrentisiaethau** 3.7 Adroddwyd ar yr heriau cyllid i ddatblygu'r maes ond bod adnoddau ychwanegol wedi'u darparu gan Lywodraeth Cymru ar gyfer datblygu staff ac adnoddau i gefnogi dysgwyr. **Ymgysylltu** 3.8 Adroddwyd bod Gwenllian Griffiths, Prif Swyddog Ymgysylltu a Chyfathrebu'r Coleg, wedi bod yn ymgysylltu gyda'r pleidiau gwleidyddol i sicrhau bod dealltwriaeth o waith y Coleg a phwysigrwydd cynnal darpariaeth cyfrwng Cymraeg. **Ymateb y Coleg i wrth-hiliaeth** 3.9 Adroddwyd bod y Coleg yn ystyried sut i ymateb i'r agenda gwrth-hiliaeth. Bydd y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant hefyd yn trafod yr egwyddorion mewn cyd-destun ehangach ar 14 Gorffennaf 2020. **Newid i ddyletswyddau staff** 3.10 Adroddwyd y cyflwynir adroddiad, i'r Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol ar 30 Medi 2020, ar y newidiadau i ddyletswyddau staff yn sgil ymddeoliad Catherine Rees.		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau gweithredu	Cyfnod amser
(Atodiad 5B)	**Academi Heddwch** 3.11 Derbyniwyd a chymeradwywyd yr argymhelliad bod y Coleg yn arwyddo Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Academi Heddwch Cymru. **Diweddariadau cyffredinol ar waith y Coleg** 3.12 Derbyniwyd adroddiadau ysgrifenedig mewn perthynas â Hyfforddiant Academaidd ac Ysgoloriaethau Ymchwil; *Gwerddon* a phrosiectau cyhoeddi eraill; Cynllun Darlithwyr Cysylltiol; Cynllun Cymraeg Gwaith; Gweithgareddau a Phrosiectau Cydweithredol; y Gymraeg fel pwnc; ac Addysg Bellach a Phrentisiaethau, er gwybodaeth.		
4. Bwrdd Academaidd **(Eitem 9)**	**Bwrdd Academaidd** 4.1 Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Bwrdd Academaidd a gynhaliwyd ar 20 Mai 2020. 4.2 Cafwyd crynodeb o drafodaeth cyfarfod 20 Mai 2020, gan y Deon, Dr Hefin Jones, ynghylch effaith yr argyfwng ar y ddarpariaeth Gymraeg yn y sefydliadau o safbwynt y myfyrwyr a'r canghennau. • Nododd bryder y myfyrwyr ynghylch prinder adnoddau cyfrwng Cymraeg ar-lein ac effaith hynny ar brofiad y myfyriwr. • Nododd polisïau dim anfantais y sefydliadau a'r cynlluniau i addysgu ar-lein.		
5. Trafodaeth	**Addysg Gychwynnol Athrawon** 5.1 Cytunwyd i'r awgrym fod y Coleg yn parhau trafodaethau i ehangu ei rôl gynllunio ym maes AGA.		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau gweithredu	Cyfnod amser
	Gwrth-hiliaeth 5.2 Atgoffwyd yr aelodau o'r adnoddau academaidd sydd eisoes yn bodoli ar hanes hiliaeth a chaethwasiaeth. 5.3 Trafodwyd priodoldeb datganiad gwrth-hiliaeth gan y Coleg. Bydd Grŵp hyrwyddo'r Gymraeg yn ystyried y mater. **Dysgu cyfunol ac adnoddau** 5.4 Adroddwyd bod ymestyn y cynllun ysgoloriaethau yn ymgais i gynorthwyo niferoedd myfyrwyr mewn cyfnod o gyfwng. 5.5 Adroddwyd bod y Coleg wedi cyflwyno prosiect i gasglu deunyddiau dysgu cyfrwng Cymraeg ynghyd ar y Porth Adnoddau, sef llwyfan adnoddau'r Coleg, i hwyluso dysgu cyfunol. Adroddwyd hefyd ar y bwriad i rannu arfer da i staff academaidd cyn diwedd yr haf. 5.6 Croesawyd cynllun y Coleg i gasglu a rhannu adnoddau gan Lleucu Myrddin ar ran y myfyrwyr. Adroddodd y byddai'n annog swyddogion y myfyrwyr i rannu'r neges yn eu sefydliadau. *Ar y pwynt hwn ymadawodd Dr Hefin Jones.*		
6. Derbyn ac ystyried cofnodion cyfarfod 30 Ebrill 2020 (Eitem 3)	6.1 Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Ebrill 2020.		
7. Y Gofrestr Risg **(Eitem 6)**	7.1 Cyflwynwyd y Gofrestr Risg gan y Prif Weithredwr. Adroddwyd y cyflwynwyd diweddariad i'r Pwyllgor Archwilio a Risg ar 3 Mehefin 2020 a oedd yn adlewyrchu ymateb y Coleg i'r argyfwng Covid-19. Nodwyd bod y gofrestr wedi'i diwygio ymhellach ers y cyfarfod hwnnw yn sgil datblygiadau pellach, sef		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau gweithredu	Cyfnod amser
	ehangu'r ysgoloriaethau a'r cynllun adnoddau. 7.2 Derbyniwyd y Gofrestr Risg yn llawn.		
8. Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol **(Eitem 7)**	**Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol** 8.1 Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 13 Mai 2020. 8.2 Cyflwynwyd crynodeb o'r prif bwyntiau yn codi o gyfarfod 13 Mai 2020, gan Pedr ap Llwyd, Cadeirydd y pwyllgor: • Nododd bod cwmni Sterling, sy'n monitro buddsoddiadau'r Coleg, wedi darparu adroddiad cadarnhaol. • Nododd bod proses adolygu cyflogau'r Uwch Reolwyr yn yr arfaeth a disgwylir adroddiad ar yr argymhellion erbyn cyfarfod nesaf y pwyllgor. **Buddsoddiadau** 8.3 Rhoddodd y Cofrestrydd ddiweddariad llafar ar fuddsoddiadau'r Coleg. Adroddwyd ar fuddsoddi gofalus cwmni Sarasin. Serch hynny nodwyd effaith yr argyfwng ar y buddsoddiadau. **Cyllideb 2019/20** 8.4 Rhoddwyd adroddiad llafar ar gyllideb y Coleg ar gyfer 2019/20 gan Dr Dylan Phillips. • Nododd bod gwariant y Coleg yn unol â'r disgwyliad. • Nododd y byddai ymrwymiadau pensiwn y Coleg yn wybyddus erbyn diwedd Gorffennaf ac y byddai'r Archwilwyr Allanol yn cyhoeddi'r adroddiad diwedd blwyddyn ar ôl hynny.		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau gweithredu	Cyfnod amser
	Cyllideb 2020/21 8.5 Rhoddwyd diweddariad llafar ar gyllideb y Coleg ar gyfer 2020/21 gan Dr Dylan Phillips. • Nododd bod y gyllideb eisoes wedi'i gytuno gan y pwyllgor a'r Bwrdd. • Nododd bod y Coleg wedi cyflwyno cynllun gweithredu i Lywodraeth Cymru ar sail y Llythyr Grant. • Nododd bod nifer o weithgareddau megis yr Eisteddfodau heb ddigwydd oherwydd yr argyfwng. • Nododd yn sgil yr arbedion hynny bod cronfa argyfwng wedi'i sefydlu a bod yr adnoddau wedi'u harallgyfeirio i'r ysgoloriaethau ychwanegol a'r cynllun adnoddau. • Nododd y bydd y proffil yn cael ei addasu a'i gyflwyno i gyfarfod nesaf y pwyllgor ar 30 Medi 2020.	Ail-gyflwyno Cyllideb 2020/21	30 Medi 2020
9. Pwyllgor Archwilio a Risg **(Eitem 8a)**	**Pwyllgor Archwilio a Risg** 9.1 Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ar 3 Mehefin 2020. 9.2 Cyflwynwyd crynodeb o'r prif bwyntiau yn codi o gyfarfod 3 Mehefin 2020, gan William Callaway, Cadeirydd y pwyllgor: • Nododd bod yr Archwilwyr Mewnol (TIAA) wedi cwblhau blwyddyn o weithredu ar ran y Coleg a nodwyd bodlonrwydd yn eu gwaith. • Nododd bod yr Archwilwyr Mewnol wedi cyflwyno adroddiad ar Ryddid Gwybodaeth (FOI) a bod y mater wedi dod i ben. • Nododd bod y Cofrestrydd wedi sefydlu cronfa elusennol i gefnogi ysgoloriaethau prentisiaethau Chwaraeon y Coleg.		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau gweithredu	Cyfnod amser
(Eitem 8bi)	**Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Risg** 9.3 Derbyniwyd adroddiad blynyddol gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg. **Penodi aelod newydd** 9.4 Derbyniwyd yr argymhelliad i benodi Nia Elias fel aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg.		
10. Bwrdd Strategol ôl-16 **(Eitem 10)**	**Bwrdd Strategol Ôl-16** 10.1 Cafwyd crynodeb o brif bwyntiau cyfarfod 18 Mehefin 2020, gan Meri Huws, Cadeirydd y pwyllgor. 10.2 Adroddwyd ar y diweddariadau gan y sector ynghylch datblygu gweithlu a chynnig hyfforddiant. **Sgiliaith** 10.3 Adroddwyd bod cytundebau wedi'u dyfarnu i Sgiliaith ar gyfer darparu rhaglenni hyfforddiant a mentora cenedlaethol ar gyfer staff dysgu a chydnabuwyd eu cydweithrediad parod. **Newyddlen** 10.4 Adroddwyd bod y newyddlen diweddar yn arddangos ystod y gwaith yn y maes a hynny gan dîm bychan. 10.5 Nodwyd yr angen i reoli disgwyliadau yn sgil prinder adnoddau. **Cyfarfod nesaf** 10.6 Adroddwyd y bydd cyfarfod nesaf y Bwrdd Ôl-16 yn trafod y meysydd datblygu		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau gweithredu	Cyfnod amser
	nesaf. 10.7 Adroddwyd bod Llywodraeth Cymru yn ymwybodol fod angen adnoddau pellach i ddatblygu'r maes hwn er mwyn ymateb i'r Strategaeth Iaith.		
11. Materion Cyfansoddiadol	**Ysgrifennydd y Coleg** 11.1 Argymhellwyd a chytunwyd i benodi Dr Dylan Phillips yn Ysgrifennydd y Coleg. **Cyfarfod Blynyddol (y Llys)** 11.2 Adroddwyd bod Cyfarfod Blynyddol y Coleg a oedd wedi'i ohirio oherwydd yr argyfwng wedi'i gynnal ar 17 Mehefin 2020.		
12. Cynllunio Academaidd **(Eitemau 12a/12b/12c)**	12.1 Cyflwynwyd adroddiadau ar Gynllunio Academaidd gan Dr Dylan Phillips. **Darpariaeth academaidd Addysg Uwch** 12.2 Derbyniwyd a thrafodwyd adroddiad ar batrymau o newid mewn darpariaeth Addysg Uwch cyfrwng Cymraeg o fewn sefydliadau Cymru a'r cynnydd yn y ddarpariaeth yn sgil buddsoddiad y Coleg. 12.3 Adroddwyd bod cyfarfod wedi ei drefnu gyda chadeirydd Addysg a Gofal Iechyd Cymru (HEIW) yn y dyfodol agos i drafod cynlluniau penodol ym meysydd iechyd a gofal. **Niferoedd myfyrwyr Addysg Uwch** 12.4 Derbyniwyd a thrafodwyd adroddiad ar niferoedd myfyrwyr o fewn y sector Addysg Uwch yng Nghymru, gan ddadansoddi a dehongli patrymau o newid ar sail data diweddaraf HESA ar gyfer 2018/19, a'u cymharu gyda data 2017/18.		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau gweithredu	Cyfnod amser
	Targedau cynlluniau mynediad a ffioedd Addysg Uwch 12.5 Derbyniwyd diweddariad ar y trafodaethau gyda'r prifysgolion ar gyfer cytuno targedau cynlluniau mynediad a ffioedd 2021/22. 12.6 Yn ystod y drafodaeth ynghylch goblygiadau'r argyfwng presennol i ymdrechion recriwtio y prifysgolion ar gyfer Hydref 2020, nododd Meg Hughes y bydd niferoedd myfyrwyr cyfrwng Cymraeg yn cael eu trin fel categori penodol ac yn cael eu heithrio o'r prosesau rheoli (*Student Number Controls*) sydd wedi'u cyflwyno gan y DfE (yn amoodol ar gytundeb Cyngor CCAUC). Nododd yn ogystal bod CCAUC yn deall bod cynnal darpariaeth Gymraeg yn hynod o bwysig, yn arbennig yn ystod y cyfnod ansicr hwn, a diolchodd y Coleg am eu gwaith. 12.7 Nodwyd rôl y Coleg wrth leihau'r baich monitro ac adrodd ar y prifysgolion yn sgil yr argyfwng presennol.		
13. Unrhyw fater arall	13.1 Nodwyd y cynhelir degfed Cynhadledd Ymchwil (Rithiol) y Coleg ar 1 Gorffennaf 2020.		
14. Dyddiad y cyfarfod nesaf	14.1 Nodwyd dyddiad cyfarfod nesaf y Bwrdd: • 25 Tachwedd 2020: rhithiol. 14.2 Dymunwyd yn dda i Lleucu Myrddin a diolchwyd iddi am ei chyfraniad i waith y Coleg yn ystod ei chyfnod fel Swyddog Iaith UCMC. 14.3 Wrth ddiolch i Osian Rhys canmolwyd safon ei gyfiethu ar-y-pryd.		